# Cwm Taf Morgannwg Rhyddhau Cleifion o Wasanaethau Iechyd Meddwl Holiadur i Deulu / Gofalwr

Mae eich barn yn bwysig mae **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**, fel yr arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru, yn gyfrifol am wirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.

Fel rhan o'n rhaglen o adolygiadau blynyddol, rydym wedi ymrwymo i gynnal **adolygiad lleol o ansawdd trefniadau rhyddhau cleifion sy'n oedolion o wasanaethau iechyd meddwl cleifion** mewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Dylech ond gwblhau'r holiadur hwn **os oes rhywun yr ydych yn gofalu amdano, neu aelod o'ch teulu** wedi'i dderbyn i uned cleifion mewnol iechyd meddwl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a'i ryddhau o'r uned wedyn.

Mae'r holiadur yn ddienw, felly ni fydd modd i unrhyw un eich adnabod o'ch atebion. Bydd y crynodeb o'r canlyniadau yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth a gesglir trwy ein gwaith maes fel rhan o'n canfyddiadau cyffredinol.

**Diolch am eich cymorth.**

| **1.** | **Beth yw eich perthynas â'r claf?** | |
|---|---|---|
| | Rwy'n aelod o'r teulu / gofalwr | |
| | Rwy'n ffrind | |
| | Rwy'n eiriolwr | |
| | Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda): | |

| **2.** | **A yw'r claf wedi rhoi caniatâd i chi gael eich cynnwys yn ei ofal?** | |
|---|---|---|
| | Ydy | |
| | Nac ydy | |
| | Ddim yn berthnasol | |
| | Sylwadau: | |

| **3.** | **O ba ysbyty y cafodd ei ryddhau ddiwethaf?** | |
|---|---|---|
| | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | |
| | Ysbyty Tywysoges Cymru | |
| | Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda): | |

| **4.** | **Rhowch wybod i ni ar ba ward(iau) yr oedd yn aros? (os yw'n hysbys)** |
|---|---|
| | |

| **5.** | **Am ba mor hir yr oedd yn glaf yn yr ysbyty yn ystod ei arhosiad diweddaraf?** | |
|---|---|---|
| | Llai nag wythnos | |
| | Rhwng wythnos a mis | |
| | Rhwng mis a chwe mis | |
| | Rhwng chwe mis a blwyddyn | |
| | Mwy na blwyddyn | |
| | Ddim yn siŵr | |

| **6.** | **Pa mor bell yn ôl y cafodd ei ryddhau o'r ysbyty?** | |
|---|---|---|
| | O fewn y ddau fis diwethaf | |
| | Rhwng dau fis a blwyddyn yn ôl | |
| | Dros flwyddyn yn ôl | |

| **7.** | **Pa mor aml yr oeddech chi'n gallu ymweld â'r ysbyty?** | |
|---|---|---|
| | Cymaint ag yr hoffech | |
| | Yn llai aml nag yr hoffech *rhowch fanylion os gwelwch yn dda:* | |
| | | |

| 8. Rhowch sgôr i'r datganiadau: | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno 'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| Cefais groeso yn yr ysbyty | | | | |
| Roedd y staff yn gwrtais | | | | |
| Gwrandawodd staff ar fy marn | | | | |

| 9. **A oeddech yn gallu gwneud penderfyniadau am ofal y claf a ran y claf** *(gelwir hyn yn "Atwrneiaeth" weithiau)?* | |
|---|---|
| Oeddwn | |
| Nac oeddwn | |

| 10. **Ydych chi wedi cymryd rhan yn y penderfyniadau am ofal y claf gymaint ag yr hoffech?** | |
|---|---|
| Cyfrannu'n fawr | |
| Tipyn o gyfraniad | |
| Ddim wedi cyfrannu ryw lawr | |
| Ddim wedi cyfrannu o gwbl | |
| Ddim yn berthnasol | |

| 11. **A oeddech yn gwybod sut i leisio pryderon os oedd gennych unrhyw bryderon?** | |
|---|---|
| Oeddwn | |
| Nac oeddwn | |
| Ddim yn berthnasol | |

| 12. **A gynigiwyd asesiad o'ch anghenion eich hun fel gofalwr?** | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |
| Ddim yn siŵr | |
| Ddim yn berthnasol | |

| 13. **Cefais wahoddiad i gyfarfod cynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf o'r ysbyty / cyfarfod trefnu'r ôl-ofal gyda'r tîm amlddisgyblaethol?** | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |

| 14. **Cefais fy annog i gymryd rhan yn y drafodaeth a siaradodd y gweithwyr proffesiynol mewn ffordd a oedd yn hawdd ei ddeall?** | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |

| 15. Rhowch sgôr i'r datganiadau: | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno 'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| Roedd y claf yn teimlo'n barod i gael ei ryddhau o'r ysbyty | | | | |
| Roedd y claf yn teimlo'n ddiogel yn cael ei ryddhau o'r ysbyty | | | | |
| Roedd y claf wedi cael ei gynnwys yn y penderfyniadau ynghylch cael ei ryddhau o'r ysbyty | | | | |
| Fel aelod o'r teulu / ffrind / gofalwr, roeddwn yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â rhyddhau'r claf o'r ysbyty | | | | |

| 16. Rhowch sgôr i'r datganiadau: | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno 'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| Roeddwn yn gallu rhannu barn am ryddhau'r claf o'r ysbyty gyda'r staff | | | | |
| Roedd yr iaith a ddefnyddiwyd gan weithwyr proffesiynol yn hawdd ei deall | | | | |
| Cefais wybodaeth ddigonol cyn i'r claf gael ei ryddhau o'r ysbyty | | | | |
| Roedd amseriad y broses o ryddhau'r claf o'r ysbyty'n briodol | | | | |

| 17. **A oedd unrhyw oedi wrth ryddhau'r claf o'r ysbyty?** | |
|---|---|
| Oedd | |
| Nac oedd | |
| Ddim yn siŵr | |

**18. A esboniwyd y rheswm (rhesymau) i chi am yr oedi wrth ryddhau'r claf?**

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |

Os yw'n hysbys, beth oedd y rhesymau?

**19. A wnaeth staff yr ysbyty rhoi gwybod i chi am ddyddiad rhyddhau'r claf?**

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |

**20. A ryddhawyd y claf ar y dyddiad / amser y cytunwyd arno?**

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |
| Ddim yn siŵr | |

**21. A oeddech yn teimlo bod y claf wedi cael ei ryddhau cyn i'r cymorth angenrheidiol gael ei drefnu?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | |
| Nac oeddwn | |
| Ddim yn siŵr | |

Os oeddech, rhowch fanylion:

**22. I ba wasanaeth y cafodd y claf ei ryddhau iddo ar ôl gadael yr ysbyty?**

**23. A gawsoch wybodaeth ddigonol ar gyfer rhyddhau'r claf pan adawodd yr ysbyty?**
*(Gallai hwn gynnwys taflenni / manylion cyswllt / grwpiau cymorth)*

| | |
|---|---|
| Do | |
| Do, ond nid oedd yn cynnwys popeth yr oedd ei angen arnom | |
| Naddo | |

Os naddo, eglurwch pam:

**24. A gawsoch wybodaeth ynglŷn â phwy y dylech gysylltu â nhw os oedd gennych unrhyw bryderon am iechyd a llesiant y claf ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty?**

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |
| Ddim yn berthnasol | |

**25. A fu'n rhaid i chi gysylltu â'r gwasanaethau ar ôl i'r claf gael ei ryddhau i drafod ei ofal?**

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |

**26. Os do, aethpwyd i'r afael â'ch pryderon?**

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |

Os naddo, eglurwch pam:

**27. Rhowch sgôr i'r datganiadau:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno 'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| Cafodd anghenion gofal iechyd corfforol y claf eu diwallu gan wasanaethau | | | | |
| Cafodd anghenion gofal llety y claf eu diwallu gan wasanaethau | | | | |
| Cafodd anghenion cymdeithasol y claf eu diwallu gan wasanaethau | | | | |

**28. A ydych chi'n teimlo bod y claf wedi derbyn y lefel briodol o gymorth ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty?**

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw (nodwch) | |

## Profiad cyffredinol

| **29. Yn gyffredinol, sut fyddech yn sgorio'r broses o ryddhau'r claf o'r ysbyty iechyd meddwl?** | |
|---|---|
| Da iawn | |
| Da | |
| Gwael | |
| Gwael iawn | |

| **30. Yn gyffredinol, sut fyddech yn sgorio'r cymorth a gafodd gan y claf yn y gymuned ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty?** | |
|---|---|
| Da iawn | |
| Da | |
| Gwael | |
| Gwael iawn | |

| **31. Sut allai'r bwrdd iechyd wella'r broses o ryddhau cleifion o ysbytai iechyd meddwl a'r cymorth cymunedol a ddarperir?** |
|---|
| |

| **32. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am y gofal neu'r gwasanaeth a gafodd y claf?** |
|---|
| |

Rydym yn aml yn defnyddio sylwadau go iawn gan gleifion yn ein hadroddiadau er mwyn dangos i'r cyhoedd yr hyn y mae'r cleifion yn ei ddweud am safon y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r sylwadau yn ddienw.

| **33. A ydych yn cytuno y gall AGIC ddefnyddio unrhyw un o'r sylwadau y gallech fod wedi'u darparu yn y bylchau testun rhydd yn yr holiadur hwn o fewn ei adroddiad arolygu?** | |
|---|---|
| Yes | |
| No | |

## Dywedwch wrthym amdanoch chi

| **34. Beth yw eich dewis iaith?** | |
|---|---|
| Cymraeg | |
| Saesneg | |
| Arall (nodwch): | |

Atebwch gwestiynau 35-37 yn unig os yw'n berthnasol, fel arall symudwch ymlaen i gwestiwn 38.

| **35. A gynigiwyd yn rhagweithiol y cyfle ichi siarad Cymraeg trwy gydol eich taith fel claf?** | |
|---|---|
| Do | |
| Weithiau | |
| Naddo | |
| Os do, a wnaeth hynny wneud gwahaniaeth ichi? | |

| **36. A wnaethoch deimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ysbyty / amgylchedd y ward, ni waeth a ofynnwyd i chi beth oedd eich dewis iaith?** | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |
| Ddim yn berthnasol | |

| **37. A oedd gwybodaeth am ofal iechyd ar gael ichi yn Gymraeg?** | |
|---|---|
| Oedd | |
| Nac oedd | |
| Ddim yn berthnasol | |

**38. Yn eich barn chi, a yw'n bosibl i chi gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir?**

*Ni waeth Oedran, Anabledd, Ailbennu rhywedd, Priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, Crefydd neu gred, Rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.*

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |
| Ddim yn dweud | |

Nodwch:

**39. A ydych wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio, a hynny oherwydd:**

| | |
|---|---|
| Nac ydw | |
| Oedran | |
| Anabledd | |
| Ailbennu rhywedd | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | |
| Hil | |
| Crefydd neu gred | |
| Rhyw | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | |
| Arall | |
| Ddim am ddweud | |

Nodwch:

**40. Beth yw eich oedran?**

| | |
|---|---|
| 17 oed neu iau | |
| 18-29 oed | |
| 30-49 oed | |
| 50-69 oed | |
| 70 oed neu hŷn | |
| Ddim am ddweud | |

**41. Oes gennych chi gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sydd wedi para neu sy'n debygol o bara 12 mis neu fwy?**

*Beth mae "cyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol" yn ei olygu. Mae hyn yn ymwneud â chyflwr iechyd, salwch neu nam a all fod gennych chi. Dylech ystyried cyflyrau sydd bob amser yn effeithio arnoch chi a'r rhai sy'n ailgodi o bryd i'w gilydd. Gall hyn gynnwys cyflwr ar y synhwyrau, cyflwr datblygiadol neu anhawster dysgu, er enghraifft.*

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |
| Ddim am ddweud | |

**42. Beth yw eich rhyw?**

**Bydd cwestiwn am hunaniaeth rhywedd yn dilyn**

| | |
|---|---|
| Benyw | |
| Gwryw | |
| Ddim am ddweud | |

**43. A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un peth â'ch rhyw a gofrestrwyd pan gawsoch chi eich geni?**

| | |
|---|---|
| Ydy | |
| Nac ydy | |
| Ddim am ddweud | |

Nodwch eich hunaniaeth o ran rhywedd, os hoffech wneud hynny

**44. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cyfeiriadedd rhywiol?**

| | |
|---|---|
| Ddim am ddweud | |
| Heterorywiol neu Strêt | |
| Hoyw neu Lesbiaidd | |
| Deurywiol | |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall: | |

| 45. Beth yw eich grŵp ethnig? | |
|---|---|
| Well gennyf beidio â dweud | |
| Gwyn | |
| Cymysg / grwpiau aml-ethnig | |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | |
| Grŵp ethnig arall: | |

| 46. Beth yw eich crefydd? | |
|---|---|
| Ddim am ddweud | |
| Dim crefydd | |
| Cristnogol<br>*(gan gynnwys eglwys Lloegr, catholig, protestannaidd, a phob enwad Cristnogol arall)* | |
| Bwdhaidd | |
| Hindŵaidd | |
| Iddewig | |
| Mwslimaidd | |
| Sikhaidd | |
| Unrhyw grefydd arall: | |

**Diolch am gwblhau'r holiadur hwn.**

Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau mewn adroddiad arolygu a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan o fewn tri mis i'n hymweliad: **www.agic.org.uk**

Os hoffech sgwrsio ag **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** i drafod unrhyw agwedd ar y gofal a gawsoch yn y practis meddyg teulu hwn, mae croeso i chi ffonio **0300 062 8163** neu anfonwch e-bost at **agic@llyw.cymru**

Mae gwybodaeth am ein dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â'r data a gesglir yn yr holiadur hwn ar gael yma: **agic.org.uk/polisi-preifatrwydd**